Cyngor Cymuned Pentir

# Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor Llawn Nos Iau 9fed o Ionawr 2025 Yng nghanolfan Gymunedol Penrhosgarnedd am 7.00

1. **Presennol: /Present**

Cyng I Ellis Cadeirydd Cyng C W Owen (IsGadeirydd) Cyng L A James; Cyng J Griffiths; Cyng E Roberts; Cyng B. Jones; Cyng A Joyce; Cyng George Owen; Cyng Megan Jones; Cyfieithydd Sioned Jones a'r Clerc

2. **Ymddiheuriadau: Apologies**

Cyng D Jones-Morris; Cyng J Pierce: Cyng Jên Dafydd

3. **Croeso / Welcome**

Croesawodd y Cadierydd bawb oedd yn bresennol gan ddymuno Blwyddyn Newydd Dda i bawb. Aeth ymlaen i ddatgan fod ein addurniadau Nadolig wedi cael eu croesawy gan nifer o etholwyr ond eu bod bellach wedi tynnu i lawr – prosiect allwn ei ymestyn arnynt yn sicr.

Croesawodd yn swyddogol y ddau Gynghorydd newydd i'n plith a'i gwahodd i ddeud gair amdanynt eu hunain ynghyd a'i diddordebau.

Cyng Megan Jones gychwynodd wrth ddatgan ei bod bellach yn byw yng Nghaerhun ers 5 mlynedd bellach – wedi cymhwyso yn gyfreithwraig ond bellach yn gweithio i Ymddiriedolaeth Natur Gog Cymru – synnodd bawb drwy ddatgan mae 'dysgwr cymraeg' ydi hi

Cyng George Owen – bellach wedi ymddeol – brodor o Sling ond wedi bod yn byw yn Penrhosgarnedd ers 1969 – wedi traelio ei oes yn y byd adeiladu

4. **Datgan buddiant / Declaration of interest**

Cyng L A James a Cyng A Joyce yn datgan eu bod yn ymddiriedaolwyr Canolfan Penrhos

5. **Derbyn cofnodion / Accept Minutes 21ain o Dachwedd / November 2024**

Datgelodd Cyng A Joyce nad oedd wedi cyhuddo y Cyngor o gamweithredu ond ei fod wedi gorfod 'ystyried' hynny. Nodwyd eto na ellir newid y cofnodion ond yn hytrach nodi ei ddatganiad yn y cofnodion oedd yn cael ei cymeryd ar y noson.

Nododd hefyd ei anfodlonrwydd fod y cofnodion, pan yn cyfeirio am siom ag anfodlonrwydd y cadeirydd, am ei ymddygiad mewn teip trwm (**bold**) ag nad oedd angen hynny

**Derbynwyd y cofnodion <u>gan nodi'r sylwadau uchod</u> ar gynnig Cyng L A James gafodd ei eilio gan Cyng C W Owen**

6. **Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising**

**Cae Caerhun** – dim ymateb o Gwynedd a bellach mae goleuadau llachar yn ogystal a swn uchel peiriannau yn tarfu ar fwynderau trigolion cyfagos

**Clerc i gysylltu a'r Adran Gynllunio eto a chopio yr Aelod Cabinet Amgylchedd**

**Sbwriel Ysbyty Gwynedd** - eto dim ymateb a'r sefyllfa yn parhau –

**Clerc i ail-anfon at y prifweithredwr a copio Cadeirydd y Bwrdd Iechyd**

**Goleuadau Nadolig**

Nam wedi bod ar oleuadau coeden Treborth yn ogystal ag ambell addurn a'r ffordd Penrhos ond hynny o bosib oherwydd iddynt 'dripio' yn hytrach na nam.

Cadarnhawyd os oes angen bod ystafell storio ar gael yn y ganolfan

**Clerc i abfon llythyr o ddiolch i'r adran goleuadau stryd**

7. **Materion ariannol / Financial Issues**

   i. **Mantolen ariannol / Financial report**

'Roedd mantolen ariannol o fewn y pecyn ddosbarthwyd yn dangos £31,332.99c yn y cyfrif cyfredol a £41,578.94c yn y cyfrif cadw yn dilyn derbyn £195.80 o log

   ii. **Cofnodion cyfarfod IBC / Minutes of S F C 27/11/2024**

Prif drafodaeth y cyfarfod oedd trafod Cyllideb 2025-26 Argymhelliad i'r Cyngor Llawn ein Boid eto eleni yn cadw y Praesept ar yr un lefel o £55K am y drydedd flwyddyn yn olynnol

   iii. **Polisia** - Cwynion – Rheoliadau Ariannol – Cadw/Gwaredu Dogfennau

Templed Rheoliada ariannol wedi ei dderbyn gan Unllais ag angen mwy o amser i fynd drwyddo cyn ei fabwysiadu

8. **Cynllunio / Planning**

C24/1123/25/LL Lleoliad / Location: Llys Castan, Ffordd Y Parc,, Parc Menai, Bangor, LL57 4FH
Bwriad / Proposal: Newid defnydd adeilad a ddefnyddir fel swyddfeydd yn milfeddygfa**.**
**Dim gwrthwynebiad**

9. **Materion y Clerc / Topics from the Clerk**

- **Cadranhau Cyllideb 2025-26**

Yn dilyn trafodaeth yn pwynt 7 Cadarnhawyd i gadw'r praespt ar £55k ar gynnig Cyng J Griffiths gafodd ei eilio gan y Cyng B Jones – Pawb o blaid

- **Diweddariad Ganolfan / Ysgol y Faenol**

Dim diweddariad

- **Mabwysiadu Polisiau Adolygu a mabwysiadu Polisi Iaith Cyngor Pentir**

Trafodwyd a mabwysiadwyd y polisi iaith

- **Capel y Fynwent**

Y clerc wedi cadarnhau y deunydd a'r lliw drwy e-bost

10. **Materion y Cynghorwyr / Councilors Topics**

**Cyng I Ellis** **Diweddariad ynglyn a llwybr Llesiant**
Dosbarthwyd gynllun oedd y Cadeirydd wedi ei dderbyn gan y swyddog trafnidiaeth Gwynedd yn dangos lleoliad y groesfan arfaethiedig ar ffordd Penrhos a'i chyffordd hefo Lon Coed y Maes
Tra yn deallt fod yna bellach ddiffyg cyllid pwysleiswyd yr angen am ail groesfan yng nghyffinia y Siop
Y swyddog Trafnidiaeth am ail-ymweld a 'r Cyngor at ddiwedd y flwyddyn ariannol yn Mis Mawrth
**Cyng J Griffiths** **Cyflwr lon yn Caerhun**
Nodwyd fod y Cyng wedi anfon llunia o'r dwr ar y ffordd a bod y Clerc wedi eu anfon ymlaen i sylw yr adran priffyrdd gyda'r gobaith o ddatrys y broblem dwr wyneb

Daeth y Cyfarfod i ben am 9.15